

# Taliadau Treth y Cyngor

## Talu Treth y Cyngor dros 12 mis

I wneud eich taliadau yn haws eu rheoli, oeddech chi'n gwybod y gallwch wasgaru eich taliadau misol dros 12 mis o Ebrill i Mawrth?



## Dulliau hyblyg o dalu

Oeddech chi'n gwybod pe baech yn talu gyda Debyd Uniongyrchol y gallwch ddewis o amrywiaeth o ddyddiadau talu?

Rydym yn cynnig cymryd taliadau Debyd Uniongyrchol ar y 1af, 8fed, 18fed neu 25ain o'r mis. Rydym hyd yn oed yn cynnig cymryd taliadau Debyd Uniongyrchol yn wythnosol.



Os nad ydych yn talu gyda Debyd Uniongyrchol, byddwn yn disgwyl eich taliad ar y 1af o bob mis.

Newidiwch y ffordd rydych yn talu trwy wneud un galwad ffôn hawdd i

**01352 704848**

[www.sirfflint.gov.uk/trethycyngor](http://www.sirfflint.gov.uk/trethycyngor)

